# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 02 Mawrth 2026

## SL(6)761 – Rheoliadau Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (Diwygiadau Canlyniadol) 2026

### Gweithdrefn: Gweithdrefn annilysu'r Senedd

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau technegol i is-ddeddfwriaeth, sy'n ganlyniadol ar:

1. ailenwi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru gan …Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020; a

2. newidiadau a wnaed i system etholiadol y Senedd gan Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (yn benodol, dileu cyfeiriadau diangen at ranbarthau etholiadol).

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024

**Fe'u gwnaed ar:** 05 Chwefror 2026

**Fe'u gosodwyd ar:** 09 Chwefror 2026

**Yn dod i rym ar:** 01 Ebrill 2026

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 02 Mawrth 2026

## SL(6)762 – Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2026

### Gweithdrefn: Gweithdrefn annilysu'r Senedd

Mae’r offeryn hwn yn diwygio Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 (“RhChCAT 2016”) o ran Cymru. Mae RhChCAT 2016 yn nodi’r dyluniad gorfodol ar gyfer arwyddion traffig yng Nghymru, yr hyn maent yn ei olygu, sut maent yn cael eu gosod a sut maent yn cael eu goleuo.

Mae’r offeryn yn diwygio RhChCAT 2016 fel na fydd rhai o’r gofynion ar gyfer croesfannau sebra a nodir ynddo yn gymwys o dan amgylchiadau penodedig. Mae’r offeryn yn caniatáu i awdurdodau priffyrdd hepgor y marciau igam-ogam (ardal reoledig) a’r goleuadau glôb (goleuadau Belisha) lle mae croesfan sebra wedi’i gosod ar is-ffordd o fewn 5 metr i’r gyffordd â phrif ffordd, a lle mai’r terfyn cyflymder ar y ddwy ffordd yw 20 mya neu’n is.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984

**Fe’u gwnaed ar:** 06 Chwefror 2026

**Fe’u gosodwyd ar:** 09 Chwefror 2026

**Yn dod i rym ar:** 11 Mawrth 2026

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 02 Mawrth 2026

## SL(6)764 – Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cael Gwared ar y Gofrestr Olygedig) (Cymru) 2026

### Gweithdrefn: Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd

Fel rhan o gyflwyno cofrestru etholiadol heb geisiadau, o dan y newidiadau a wnaed gan Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 ("Deddf 2024"), mae'r Rheoliadau hyn yn datgymhwyso'r gofynion yn Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 ("Rheoliadau 2001") a osodir ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i lunio cofrestrau golygedig o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yng Nghymru neu gyflenwi cofrestrau o'r fath neu ran ohonynt i unrhyw berson ar ôl talu ffi.

Mae adran 72(5)(d) o Ddeddf 2024 yn datgan, cyn i gofrestru etholiadol heb geisiadau gael ei gyflwyno ledled Cymru, na chaniateir cychwyn y darpariaethau ym Mhennod 2 o Ran 1 o'r Ddeddf honno sy'n ymwneud â chofrestru etholiadol heb geisiadau hyd nes nad yw'r gofynion i lunio a chyflenwi cofrestr olygedig o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yng Nghymru mewn grym mwyach.

Mae rheoliadau 3 a 5 o'r Rheoliadau hyn yn dileu'r gofynion a gynhwysir yn rheoliadau 93 a 110 o Reoliadau 2001 ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gyhoeddi fersiwn olygedig o'r gofrestr llywodraeth leol ar gyfer ardal yng Nghymru a sicrhau ei bod ar gael i'r cyhoedd edrych arni ac i'w gwerthu.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ganlyniadol sy'n datgymhwyso gofynion mewn perthynas â hysbysu swyddog cofrestru am newid i ddewisiadau ynghylch y gofrestr olygedig, na fydd yn ofynnol mwyach mewn cysylltiad â chofrestrau o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardaloedd yng Nghymru ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i swyddog cofrestru sy'n gyfrifol am gofrestr o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yng Nghymru beidio â rhoi ar gael, i'r cyhoedd edrych arni nac i'w gwerthu, y fersiwn olygedig o'r gofrestr honno sydd mewn grym ar yr adeg y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Yn dod i rym ar:** 01 Hydref 2026

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 02 Mawrth 2026

## SL(6)767 – Rheolau Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2026

### Gweithdrefn: Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd

Mae Rheolau Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2026 ("y Rheolau Diwygio") yn diwygio'r rheolau ar gyfer cynnal etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, sef Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 a Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021, y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel "Rheolau 2021".

Cafodd Rheolau 2021 eu hailddrafftio a'u moderneiddio'n llawn yn 2021. Yn sgil newidiadau i bolisi a deddfwriaeth arall, dim ond newidiadau angenrheidiol a thechnegol i Reolau 2021 y mae'r Rheolau Diwygio yn eu gwneud.

Mae'r prif newidiadau polisi a gyflawnir gan y Rheolau Diwygio yn cynnwys diwygio'r geiriad yn y ffurflenni rhagnodedig sy'n ofynnol o ganlyniad i Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy) (Cymru) 2023 ("y Rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy") a mân welliannau a nodwyd wrth lunio'r Rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy. Caiff newidiadau pellach a wnaed yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 ("y Gorchymyn Cynnal Etholiadau") hefyd eu hystyried yn y Rheolau Diwygio, megis darpariaethau hygyrchedd.

Mae'r newidiadau wedi eu crynhoi fel a ganlyn:

• Gofynion o ran y Gymraeg,
• Diweddaru ffurflenni rhagnodedig,
• Dyletswydd ynghylch cyfarpar hygyrch,
• Disgrifiadau ar y cyd,
• Gweithio'n ddigidol,
• Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd cyhoeddus,
• Llenwi swyddi sy'n digwydd dod yn wag mewn cynghorau tref a chymuned: cywiriad "rheol chwe mis", a
• Chywiriadau a mân ddiwygiadau.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Llywodraeth Leol 1972, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Yn dod i rym ar:** 13 Mawrth 2026

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 02 Mawrth 2026

## SL(6)768 – Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2026

### Gweithdrefn: Gweithdrefn annilysu'r Senedd

Mae Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu digonolrwydd gofal plant yn eu hardaloedd, datblygu cynllun gweithredu sy’n nodi’r camau sydd eu hangen i wella mynediad a chyflwyno adroddiadau blynyddol ar gynnydd.

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2016. Yn benodol, maent—

- yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau gweithredu flaenoriaethu’r camau sydd i’w cymryd a gosod terfyn amser ar gyfer eu cwblhau;
- yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi cynllun gweithredu ychwanegol gyda phob adroddiad blynyddol; ac
- yn cyflwyno Atodlen 1 newydd, sy’n nodi’r materion y mae rhaid eu cynnwys mewn asesiad, er mwyn symleiddio’r broses asesu.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Gofal Plant 2006

**Fe’u gwnaed ar:** 09 Chwefror 2026

**Fe’u gosodwyd ar:** 10 Chwefror 2026

**Yn dod i rym ar:** 11 Mawrth 2026

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 02 Mawrth 2026

## SL(6)770 – Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2026

### Gweithdrefn: Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae Atodlen 6 i'r Mesur yn nodi:

(i) cyrff y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â safonau'r Gymraeg, a
(ii) pa ddosbarthiadau o safonau a all fod yn gymwysadwy i bob corff.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r Mesur drwy fewnosod Cartrefi Cymunedol Cymru yn Atodlen 6 a phennu'r dosbarthiadau o safonau y gellir eu cymhwyso i'r corff hwnnw.

**Rhiant-Ddeddf:** Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Yn dod i rym ar:** 30 Mawrth 2026